# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

**Cyfres newydd, rhif 67** **Gwanwyn 2024**



Wrth edrych, Iesu, ar dy groes,
a meddwl dyfnder d'angau loes,
pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd
a'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

## Talu sylw

Ydan. rydyn ni i gyd wedi ei wneud. A difaru yn ddiweddarach nad oeddem wedi talu mwy o sylw.

Efallai, pan oeddem yn ifanc, y cofiwn ymweld â rhywun hŷn, taid neu nain, er enghraifft, oedd am rannu hanesion am eu plentyndod neu eu hieuenctid â ni. Pan oeddem yn blant, roedd bod y tu allan yn chwarae gyda'n ffrindiau yn ein rhwystro rhag eistedd i wrando. Yn ddiweddarach, am ein bod wedi ymgolli ym mhrysurdeb ein byw a'n bod, wnaethon ni ddim talu fawr o sylw i'r straeon oedd yn cael eu hadrodd ganddynt. Yn wir, os oeddem wedi clywed fersiynau gwahanol o'r hanesion nifer o weithiau o'r blaen, roedd yn haws gadael i Nain adrodd ei stori, gadael i'n meddyliau grwydro, ac esgus bod gennym ddiddordeb yn ei pharabl.

I'n golwg ni, yn ein hieuenctid, ymddangosai'r storïau am yr hyn a fu yn amherthnasol. Beth a wyddai Nain am beiriannau a thechnoleg fodern? Wedi'r cyfan, cofiai am yr oesoedd tywyll cyn i drydan gyrraedd ei chartref am y tro cyntaf, am glywed radio a gweld teledu am y tro cyntaf. Beth a wyddai Nain am fagu plant pan oedd bygythiad rhyfel yn gysgod dros bopeth, pan oedd amser yn brin ac arian yn brinnach? Yn ein balchder, ni wnaethom wrando ac ni chlywsom ddim am yr heriau, y tlodi, a'r ymdrech a berthynai i'w hoes.

Erbyn heddiw, a ninnau bellach yn hŷn, deallwn fod yr hanesion roedd Nain am eu hadrodd yn llawer mwy na dim ond hiraeth am ddoe yn ôl. Drwy adrodd yr un hanesion drosodd a thro, doedd Nain ddim o angenrheidrwydd yn ffwndro. Roedd am i mi sylweddoli bod 'hanes' yn fwy na'r hyn ddigwyddodd i frenhinoedd, ymerodraethau neu gadfridogion mewn oesau a fu.

Yn rhy hwyr o lawer, deallwn heddiw fod Nain, wrth adrodd ei hanesion, wedi dymuno i ni wrth glywed ei hanes gael ei hadnabod. Roedd am drosglwyddo'r adnabyddiaeth hon, a'r profiad a gostrelwyd ganddi, fel trysor i mi. Roedd am i ni amgyffred beth oedd wedi digwydd iddi hi yn ystod ei hoes faith, a hynny er mwyn i ni gael ei hadnabod, a'i deall, a'i charu.

A sylweddolaf erbyn heddiw fod ei hanesion yn fwy nag atgofion personol. Oherwydd ynddynt, mewn modd dirgel, y cynhwyswyd stori ein teulu ni, dechreuadau fy stori i. Oddi ar ei gwefusau clywyd llais ein tras, acenion ein diwylliant, cofnod llafar o'n hanes diweddar. A thrwy ei geiriau trosglwyddwyd i ni berthynas â chenedl, wrth le ac amser, tir a bro.

Erbyn heddiw, a ninnau'n methu dychwelyd ati i'w holi ymhellach, rydym yn difaru na wnaethom dalu mwy o sylw a rhoi mwy o werth ar yr adnabod hwnnw.

Mor ffôl yr oeddem. Mor falch ac mor fyddar oeddem. Ac mor annoeth ydym o hyd fel unigolion, fel cenedl, pan na thalwn sylw i ddoethineb a phrofiad ein rhagflaenwyr o ymgodymu â heriau byw ac o ganfod pwrpas a chyfeiriad, a gwerthoedd dyrchafol i'w cynnal yn Iesu Grist ac yng nghwmni ei bobl.

Ar hyd canrifoedd ein hiaith a'n hanes fel cenedl seiniwyd mawl i'r Tad a'n carodd, i'r Mab a'n prynodd ar Galfaria, a'r Ysbryd a gartrefodd ynom drwy ras.

A hyd yn oed mewn oes a seciwlareiddiwyd, mynnwn gyhoeddi bod gobaith a llawenydd yn tarddu o 'ffynhonnau' gras Duw. Yn wir, addewid yr Arglwydd i'w bobl mewn dyddiau a fu oedd mai 'Mewn llawenydd fe dynnwch ddŵr o ffynhonnau iachawdwriaeth' (Eseia 12:1–3).

Nid ataliwyd mo'i addewid. Hyd yn oed mewn cenhedlaeth sy'n ddibris o gyfoeth ffydd ein rhagflaenwyr, sy'n mynnu cloddio iddynt bydewau na ddaliont ddŵr, mae lleisiau o'n gorffennol yn tystio bod gras bywiol ein Harglwydd Iesu Grist yn dal i raeadru tuag atom. Mae cariad Duw yn dal i ddisychedu'r sychedig, a chymdeithas dragwyddol ei Ysbryd Glân ynom yn parhau i'n cadarnhau a'n cyfeirio ar hyd ein hoes, hyd dragwyddoldeb maith ei hun, yng nghwmni byw ei bobl.

*Watcyn James*

(Llun y clawr: Aaron Burden ar unsplash.com)

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 11 Ebrill | Y grŵp Gwreiddiau'n ailgyfarfod,<br>yn festri'r Garn a thrwy gyfrwng Zoom,<br>am 10.15 o'r gloch. |
| 28 Ebrill | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>Capel Bethel, Tal-y-bont<br>Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch<br>Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch<br>Arweinydd: Mrs Delyth Hopkins Evans |
| 16 Mai | Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De<br>Capel Soar, Pontyberem<br>Cyfarfod y pnawn am 2 o'r gloch<br>Anerchir gan Miriam Watling, Llundain<br>Cyfarfod yr hwyr am 5 o'r gloch<br>Anerchir gan Siân Wyn Rees, Cymdeithas y Beibl |

## Galw Gweinidog

**Yn dilyn pleidlais ffafriol yn eglwysi'r ofalaeth o blaid symud ymlaen i geisio olynydd i'r Parch. Ddr Watcyn James, y cam nesaf fydd ffurfio Pwyllgor Bugeiliol. Bydd hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o bob eglwys, a hefyd yn derbyn arweiniad gan gynrychiolwyr yr Henaduriaeth.**

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

# Tudalen y Plant – 'Y Brecwast Anhygoel'

Wyt ti'n hoffi cael picnic gyda dy ffrindiau? Dyma hanes o'r Beibl am Iesu'n cael picnic gyda Pedr a rhai o'i ffrindiau. Yma, mae Iesu'n dweud wrth Pedr fod ganddo waith arbennig iddo'i wneud.



Aeth rhai o'r disgyblion i bysgota. Fe fuon nhw'n pysgota trwy'r nos ond ddalion nhw yr un pysgodyn. Wrth iddi ddechrau gwawrio galwodd dyn oedd yn sefyll ar y lan ar y disgyblion, "Oes ganddoch chi bysgod?"

"Nac oes!" atebon nhw'n siomedig.

Dywedodd y dyn wrthyn nhw am osod y rhwyd yr ochr arall i'r cwch. Y tro hwn fe wnaethon nhw ddal cymaint o bysgod nes eu bod nhw'n methu codi'r rhwyd i'r cwch.

Sylweddololdd Simon Pedr mai Iesu oedd y dyn. Felly, neidiodd i'r dŵr a nofio at Iesu. Daeth y lleill ar ei ôl gan lusgo'r rhwyd i'r lan.

Cafodd y disgyblion frecwast ar lan y llyn gyda Iesu. Ar ôl brecwast trodd Iesu at Simon Pedr a gofyn iddo, "Wyt ti'n fy ngharu i?" "Ydw, Arglwydd, ti'n gwybod fy mod i'n dy garu." Gofynnodd Iesu i Simon Pedr eto ddwywaith, "Wyt ti'n fy ngharu?" Roedd Simon Pedr yn ddigalon fod Iesu wedi gofyn iddo dair gwaith. Atebodd eto, "Ydw, Arglwydd, ti'n gwybod fy mod i'n dy garu di." Dywedodd Iesu wrtho, "Gofala am y bobl fydd yn fy nilyn."


(Cyhoeddwyd yn *Clwb Plant drwy'r Post*)

# Cymanfa Ganu Unedig
# Gogledd Ceredigion

## Capel Bethel, Tal-y-bont

## dydd Sul, 28 Ebrill 2024

## Cyfarfod y Plant am 10 yb
## Cymanfa'r Oedolion am 5.30 yh
## Arweinydd: Mrs Delyth Hopkins Evans




### Trefn y Rihyrsals am 7yh

| | |
|---|---|
| 27 Mawrth | Capel Seion, Stryd y Popty Aberystwyth |
| 10 Ebrill | Capel Bethel, Aberystwyth |
| 17 Ebrill | Capel y Morfa, Aberystwyth |
| 24 Ebrill | Capel Bethel, Tal-y-bont |

## Madog

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r Athro Marged Haycock a'r Fns Angharad Lewis ar gael eu hethol yn flaenoriaid yng Nghapel Madog, a hefyd i Angharad yn ei gwaith fel Ysgrifennydd yr eglwys.

## Cyflwyno Medalau Gee

Mewn gwasanaeth arbennig a gynhelir nos Sul, 19 Mai, yng Nghapel Seion am 5 o'r gloch, bydd y Parch. Aled Davies o Gyngor yr Ysgolion Sul yn cyflwyno Medal Gee i'r canlynol i gydnabod eu ffyddlondeb i'r ysgol Sul:

Mrs Magdalen Davies
Mrs Eirlys Jones
Mr John Gwyn Jones
Mrs Aeronwy Lewis
Mrs Heulwen Lewis
Mrs Ina Tudno Williams
Y Parch Athro John Tudno Williams

Mae croeso cynnes i bawb i'r oedfa arbennig hon. Llongyfarchiadau calonnog i chi i gyd, a diolch am eich ymroddiad.

## Bod yn ddiogel

Yn ystod ein bywydau fe fydd pob un ohonom yn wynebu cyfnodau lle rydym yn teimlo’n fregus. Fe allwn deimlo’n fregus oherwydd ein bod wedi ein hynysu, yn unig, neu wedi dioddef profedigaeth. Gallwn deimlo’n fregus wedi cyfnod yn yr ysbyty, neu pan ydym wedi dychwelyd i’n cartrefi, yn ceisio ailafael mewn gorchwylion bywyd bob dydd.

Bydd pob un ohonom, rywbryd neu’i gilydd, yn wynebu cyfnodau o fod yn fregus, naill ai’n gorfforol neu yn ein hysbryd. Yn y cyfnodau hynny pan fyddwn ar ein mwyaf bregus, pan fydd yn rhaid i ni ddibynnu ar rywun arall i ofalu am ein buddiannau, bydd angen pobl arnom fydd yn ofalus ohonom, yn sensitif i’n hamgylchiadau, yn creu awyrgylch lle’r ydym yn teimlo’n saff.

Ar droad y mileniwm daeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr ac Undeb y Bedyddwyr ynghyd i greu’r **Panel Diogelwch Cydenwadol** a fyddai’n hyrwyddo diogelwch ein plant, yn arbennig. Ers hynny daethpwyd i sylweddoli bod yr angen am ofal yn ymestyn y tu hwnt i ofalu am blant bregus a’i fod yn golygu bod gennym gyfrifoldeb ehangach, mwy cyffredinol, i warchod buddiannau a sicrhau diogelwch oedolion bregus yn ogystal â phlant. Bellach caiff y corff hwnnw a sefydlwyd ac a gynhelir yn ariannol gan y tri enwad yn **Banel Diogelu Cydenwadol**.

Mae’r tri enwad gyda’i gilydd wedi ymrwymo i sicrhau bod pob cynulleidfa yn fan diogel i bob aelod o’n capeli, o’r ieuengaf hyd yr hynaf.

Ond nid digon yw creu polisi ffurfiol na hyd yn oed creu sefydliad diogel ar y Sul. Mae ‘diogelu’ yn golygu ein bod yn fwriadol yn edrych am les y rhai sy’n dod i gysylltiad â ni. Mae diogelu’n golygu ‘amddiffyn pobl fregus rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod’. Mae’n golygu ein bod yn ‘adnabod arwyddion a nodweddion camdriniaeth’ fel y medrwn ymateb mewn modd priodol. Nid digon yw gofalu am y rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth yn y gorffennol.

Y mae i'n gofal ddiben parhaol, sef 'amddiffyn' pobl fregus rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso o gwbl. Mae'n golygu ein bod yn ein holl weithgarwch yn darparu gweithgareddau diogel ynghyd â gofal priodol.




Ym mhob capel, felly, mae rhywun wedi ei benodi neu ei phenodi â'r cyfrifoldeb deublyg o hybu meddylfryd 'diogelwch' o fewn y capel ac o atgoffa'r swyddogion o bwysigrwydd diogelwch yn ein holl drefniadau.

Os oes gennych bryderon am blentyn neu oedolyn bregus, dylech gysylltu yn y lle cyntaf â'r cydlynydd diogelu yn eich capel am gyngor a chymorth. Byddwn yn cyfeirio ymhellach at y polisi diogelwch yn y dyfodol agos.

Felly, gadewch i ni roi ein bryd ar ymgnawdoli gwerthoedd hanfodol ein ffydd yn ein hymwneud â'n gilydd. Gadewch i ni fod yn 'fur', yn lloches i gysgodi ynddi, yn gymuned ddiogel, sy'n anrhydeddus yn ein hymwneud â'n gilydd, yn ofalus o'n gilydd, yn gwrando ar anghenion ein gilydd, yn diogelu ein gilydd. Gadewch i ni gymryd o ddifri'r anogaeth a 'Dadlau o blaid y mud, a thros achos yr holl rai diobaith. Siarad yn eglur, a rho farn gyfiawn; cefnoga achos yr anghenus a'r tlawd.' (Diarhebion 31:8)

*Watcyn James*




Arddangosfa ar gyfer gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd (uchod)
Mwynhau paned a sgwrs cyn dechrau'r gwasanaeth (isod)



# Seion

Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd yn Seion fore Gwener, 1 Mawrth. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan grŵp eciwmenaidd o ferched Cristnogol o Balesteina ar y thema 'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad' (Effesiaid 4:16). Yn ôl y drefn arferol rhannwyd yr oedfa yn ddarlleniadau, myfyrdodau, emynau a gweddïau, ynghyd â storiau'n darlunio profiadau tair gwraig: Eleanor, Lina a Sara o Balesteina, pob un o genhedlaeth wahanol yn tystio i rym goddef ein gilydd mewn cariad.

Diolch i Eirlys Williams am baratoi'r bwrdd arddangos, ac i Olwen Jones am ein harwain wrth yr organ drwy'r emynau a dwy gân draddodiadol o Balesteina, sef:

1. 'Duw heddwch, tyrd atom
   Dyro dy heddwch i'r byd'.
2. 'Rwy'n erfyn arnoch
   Byddwch yn garedig fel un'.

Diolch yn fawr i'r gwragedd a'r brodyr am eu cymorth yn mynd drwy'r daflen ac i'n Bugail, y Parch. Ddr R. Watcyn James am ei bresenoldeb ac am offrymu gweddi dros Balesteina heddiw yng nghrafangau rhyfel enbyd. Cyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned, pice bach a bara brith. Diolch eto.

## Ymweliad â Llundain

Bob blwyddyn bydd Eglwysi Cymraeg Ynghyd Canol Llundain yn trefnu oedfa undebol i ddathlu Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd yr oedfa eleni yng Nghapel Jewin bnawn Sul, 25 Chwefror.

Ar ran Eglwys Jewin gwahoddodd Mrs Llinos Morris, yr Ysgrifennydd, y Parch. Ddr John Tudno Williams i arwain y gwasanaeth ac i draddodi'r bregeth eleni. Wrth ymateb ar y dechrau i'r gwahoddiad hwn, atgoffodd y gynulleidfa niferus iddo bregethu gyntaf i aelodau Jewin pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed ac yn dal yn yr ysgol yn Lewisham. Nid oedd adeilad presennol y capel wedi'i godi bryd hynny gan i'r un oedd ar yr un safle ag ef gael ei fomio yn y rhyfel. Cynhaliwyd y gwasanaeth y nos Sul hwnnw i gynulleidfa yn neuadd orlawn Cymdeithas Cymry Llundain yn Gray's Inn Road. Llywyddwyd y gwasanaeth eleni gan Huw Rhys Evans; ef hefyd a chwaraeai'r organ. Lediwyd yr emynau gan y Parch. Robert Nicolls. Yn bresennol hefyd yr oedd Ina, Haf a Tomos Gwyn.

# Gwreiddiau – gair o werthfawrogiad

Gellid dweud mai Ysgol Sul ar fore dydd Iau yw Gwreiddiau, y cyfarfod sy'n cael ei gynnal bob wythnos naill ai yn festri'r Garn neu ar Zoom, neu gymysgedd o'r ddau. Mae'r enw'n addas iawn oherwydd diben y cyfarfod yw olrhain ac ystyried gwreiddiau ein ffydd, a hynny dan arweiniad gofalus ein gweinidog, y Parch. Watcyn James. Mae'n gyfle i feddwl, ailfeddwl, dysgu a thrafod elfennau o ffydd y Cristion, a sut mae hi'n berthnasol i ni heddiw.




Salm 23, 'Yr Arglwydd yw fy Mugail', fu'n faes llafur i ni eleni. Mae hynny wedi ein harwain ar hyd llwybrau dyrys a ddechreuodd drwy ystyried bywyd dafad a swyddogaethau'r bugail – pwysigrwydd arwain a dilyn. Rhoddwyd sylw penodol i arwyddocâd llwybrau cyfiawnder, a'r dyfroedd tawel, a llonyddwch, a gwir ystyr y geiriau "Efe a ddychwel fy enaid". A phwy yw fy ngwrthwynebwyr? Y diafol neu satan oddi allan i fi, neu fi fy hunan oddi mewn i fi?

Rhaid cofio mai wedi eu cyfieithu o iaith arall y mae'r geiriau sydd o'n blaenau, a bod gwahaniaethau diwylliannol dwfn weithiau rhwng ystyron geiriau mewn gwahanol ieithoedd. Felly, bydd angen edrych yn ôl ar beth sydd yn y gwreiddiol; mae hi'n werth y byd i gael pobl hyddysg wrth law sy'n deall yr iaith wreiddiol i'n goleuo bryd hynny.

Yn ogystal â darllen y testun gosodedig, fe fyddwn ni hefyd yn cael ein harwain i rannau eraill – cyfarwydd ac anghyfarwydd – o'r ysgrythurau, yn enwedig Epistolau Paul, i gyfoethogi ein dealltwriaeth a'n myfyrdodau.

Rydw i'n gyfarwydd â'r drydedd salm ar hugain ers ymron i dri chwarter canrif, ond gallaf ddweud bod Gwreiddiau eleni wedi cyfoethogi fy nirnadaeth ohoni.

*Llinos Dafis*

## Capel y Garn

## Ebrill

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

7 Oedfa yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

10 Cymdeithas Chwiorydd y Garn yn cyfarfod
am baned a sgwrs – Crefftau Pennau am 10.30 o'r gloch

11 Grŵp 'Gwreiddiau' yn ailddechrau
yn festri'r Garn a dros Zoom am 10.15 o'r gloch

14 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

21 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

28 Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
Capel Bethel, Tal-y-bont
Cyfarfod y plant am 10am; Cymanfa'r oedolion am 5.30pm
Arweinydd: Mrs Delyth Hopkins Evans

**Cydymdeimlo**

**Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd o'r eglwys a brofodd brofedigaeth yn ddiweddar. Meddyliwn yn arbennig am:**

**Annetta, Elsbeth a Hafwen ym marwolaeth Glyn Morgan, Ty'n Rhos, ar 26 Rhagfyr 2023;**
**Gerallt, Kenneth, Geraint a Wendy, a'r teulu ym marwolaeth Mair Evans, Pant-y-dwn, ar 24 Ionawr 2024.**

**Llongyfarchiadau calonnog:**

**i Llinos a Cynog Dafis ar ddathlu eu priodas ddiemwnt. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Garn ddydd Calan 1964;**

**i Glyn a Gill Saunders Jones ar dderbyn Gwobr Cyfraniad Oes gan Gwlwm Cyhoeddwyr Cymru am eu cyfraniad arbennig i'r byd cyhoeddi yng Nghymru.**

## Paned a Sgwrs

Diolch i'r cydweithio hapus sydd rhwng Capel Noddfa, Capel y Garn, Eglwysi Llangorwen a Llandre, ynghyd â Phwyllgor Neuadd Rhydypennau, mae nifer o'r ardaloedd hyn yn mwynhau cymdeithasu tros baned o de neu goffi am ddim yn Neuadd Rhydypennau bob bore dydd Gwener gydol y gaeaf.



Nid yr un rhai bob tro, ond ar gyfartaledd bydd rhwng pymtheg ac ugain yno bob wythnos – Cymry a Saeson, gwŷr a gwragedd, priod a sengl, gwŷr a gwragedd gweddw. Ac yn aml fe gyfoethogir y cwmni am yr awr ddiwethaf gan ddysgwyr y Dosbarth Cymraeg sydd wedi bod yn cwrdd mewn ystafell gyfagos. Cyfle iddynt glywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol a rhugl, ac i ymuno yn y sgwrs yn Gymraeg neu Saesneg.

Diolch i bob un o'r gwirfoddolwyr sydd yn rhoi o'u hamser i weini yn eu tro unwaith y mis. Mae eu cyfraniad at greu cymdeithas gymdogol, amlieithog yn y gymuned yn amhrisiadwy ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb.

Bydd y boreau hyn yn parhau am rai wythnosau eto cyn cymryd seibiant tros yr haf. Dewch am baned.

Diolch yn arbennig i Eddie Jenkins am gydlynu'r cynllun gwerthfawr hwn ar ran y Garn.

## Capel y Garn

## Mai

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

5 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

12 Oedfa Cymorth Cristnogol
am 10 o'r gloch

19 *Sul y Pentecost*
Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

25 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

## Mehefin

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

2 Oedfa yng Nghapel Noddfa
am 10 o'r gloch

9 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

16 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

23 Oedfa i'w threfnu
am 10 o'r gloch

30 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch



Rhai o'r gynulleidfa yng ngwasanaeth
Dydd Gweddi'r Byd a gynhaliwyd ddydd Gwener,
1 Mawrth, yng Nghapel Pen-llwyn ar y cyd ag
Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor



# Dydd Gweddi'r Byd

Dathlwyd yr achlysur dan arweiniad chwiorydd capeli Noddfa a'r Garn, fore Sul, 3 Mawrth.

"Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad" oedd pennawd a phrif anogaeth gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd eleni, a'r ffaith mai merched Cristnogol Palesteina oedd wedi paratoi'r rhaglen yn dwysáu difrifoldeb yr ymbil am heddwch, goddefgarwch a chyd-ddealltwriaeth.

Gofynnodd y Nodiadau Paratoi i ni gynnwys rhywbeth i gynrychioli coed olewydd – brigau, dail, olifau, olew olewydd – am fod coed olewydd yn arwydd o fywyd, gan eu bod yn gallu byw am filoedd o flynyddoedd. Mae'n debyg bod rhai o'r coed olewydd sydd ym Mhalesteina heddiw yno yn amser Iesu Grist. Dosbarthwyd llyfrnod wedi ei addurno â lluniau o ddail a ffrwyth yr olewydden ac yn dwyn y geiriau "Rhowch heddwch yn nwylo eich gilydd a'i ddal fel trysor" i bob aelod o'r gynulleidfa.




Yn ystod y gwasanaeth clywyd hanes tair merch a oedd yn cynrychioli teuluoedd a gafodd eu dadsefydlogi, mewn gwahanol ffyrdd, adeg sefydlu gwladwriaeth Israel yn 1948 – y Nakba (Trychineb) yn eu geiriau nhw.

Clywsom y geiriau "Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad" (Effesiaid 4) yn y darlleniad cyntaf o'r ysgrythur. A geiriau cyntaf yr emyn a ddilynodd hynny oedd: "Heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i".

Rhaid pwysleisio nad gofyn am gydymdeimlad roedd y gwasanaeth, ond datgan ymlyniad y merched at gariad, goddefgarwch a heddwch, ac wrth wneud hynny roedd yn erfyn arnon ninnau, trwy lefaru eu geiriau, i wneud yr un datganiad.

*Llinos Dafis*

# Cymdeithas Lenyddol y Garn



Braf oedd croesawu'r Athro Peredur Lynch o Brifysgol Bangor i roi sgwrs yng Nghymdeithas Lenyddol y Garn, nos Wener, 15 Rhagfyr.

Testun ei gyflwyniad oedd 'Nadolig y Beirdd' ac fe ddewisodd yr Athro Lynch sôn am dair cerdd wrthgyferbyniol gan feirdd â chysylltiad â'i fro enedigol ym Mro Edeirnion oedd yn rhychwantu'r canrifoedd a sawl thema'n ymwneud â'r Nadolig.

Mewn sgwrs hwyliog a chartrefol, cyfeiriodd yn gyntaf at gerdd Madog ap Gwallter, 'Mab a'n rhodded', sy'n cael ei hystyried fel y garol hynaf yn yr iaith Gymraeg, cyn mynd ymlaen i gyflwyno cerdd Eos Iâl, 'Ar gyfer heddiw'r bore', sydd bellach yn un o'n carolau mwyaf poblogaidd. I gloi'r noson, dyfynnodd gerdd Nadoligaidd rymus y Parch. R. Meirion Roberts o gyfnod yr Ail Ryfel Byd – cerdd sy'n sôn am ei waith fel caplan yn cefnogi'r hogiau cyffredin oedd yn ymladd ar faes y gad, er enghraifft ym mrwydr El Alamein.

Diolchwyd i'r Athro Lynch am gyflwyniad arbennig gan yr Athro Gruffydd Aled Williams, a mwynhawyd sgwrs, paned a mins pei yn y festri i ddilyn.

Nos Iau, 18 Ionawr, aeth aelodau'r Gymdeithas ar ymweliad â'r Ganolfan Arloesi, Gogerddan. Cafwyd cyflwyniad i gefndir y ganolfan gan Dr Steve Thomas, cyn ein tywys o amgylch yr adrannau amrywiol gan John Jones a Teleri Davies. Roedd y daith yn wir yn agoriad llygad a'r gwaith a wneir yma'n arloesol mewn sawl ffordd. I gloi noson ddifyr, mentrodd rhai i mewn i'r 'ystafell ddirgel' i gymryd rhan yn yr arbrawf blasu bwyd, ac roedd y canlyniadau'n ddiddorol iawn. Llio James oedd cadeirydd y noson, a chafwyd gair o ddiolch ar ran y Gymdeithas gan Gwynfryn Evans.




Y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Chwefror oedd Meg Elis. Roedd hynny'n arbennig o addas gan mai union ganrif yn ôl i'r diwrnod, bron, ar 19 Chwefror 1924, yr oedd ei mam-gu, Annie Hughes Griffiths, yn cyflwyno cist deiseb heddwch merched Cymru i ferched America mewn cinio mawreddog yng ngwesty'r Biltmore, Efrog Newydd. 'O Langeitho i'r Tŷ Gwyn' oedd testun cyflwyniad Meg, a chafwyd cip ganddi ar ran allweddol ei mam-gu yn yr ymgyrch ryfeddol hon a sicrhaodd lofnodion 390,296 o ferched Cymru ar y ddeiseb yn ystod misoedd gaeaf 1923–4. Cyflwynwyd y siaradwraig gan Llio James, a chafwyd gair o ddiolch gan Llinos Dafis.


'O Langeitho i'r Tŷ Gwyn'
Meg Ellis





I gloi gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni, cafwyd noson i ddathlu Gŵyl Ddewi nos Wener, 8 Mawrth. Roedd y festri'n llawn o sgwrsio a chymdeithasu wrth inni fwynhau paned a lluniaeth ysgafn, wedi'u paratoi gan Liz Jones, Margaret Rees a Bet Evans.

Yna, cafwyd gwledd arbennig iawn o fath arall gan ein gwraig wadd, sef Gwenan Gibbard. Swynwyd y gynulleidfa gan ei llais a'i chyflwyno naturiol wrth iddi ganu nifer o alawon a phenillion gwerin, yn bennaf o fro Llŷn ac Eifionydd, i gyfeiliant ei thelyn. Cafwyd cyfle i gydganu nifer o'r caneuon efo Gwenan, ac roedd pawb wedi dotio at ei dawn a'i phersonoliaeth siriol. Cyflwynwyd Gwenan gan Llio James, a thalwyd y diolchiadau gan y Parch. Watcyn James. Diolch hefyd i gynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru am nawdd ar gyfer y noson.

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi cyfarfodydd y Gymdeithas drwy gydol y tymor llwyddiannus a gafwyd eleni.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Daeth yr aelodau ynghyd i festri capel Rehoboth ar 12 Rhagfyr, ac estynnodd Meinir Fleming groeso i bawb ac i'r wraig wadd, sef Catrin M. S. Davies, Tal-y-bont. Bu Catrin yn sôn am ei gwaith yn cynhyrchu rhaglenni teledu megis *Dylan ar Daith* gyda Dylan Iorwerth, pan fuont yn teithio i rannau o'r byd i greu rhaglenni dogfen i adrodd hanes nifer o Gymry dylanwadol a deithiodd dramor yn y dyddiau a fu gan adael eu marc mewn nifer o wledydd ar draws y byd. Yn eu plith yr oedd Helen Rowlands, ieithydd ac athrawes o Ynys Môn, a deithiodd i'r India ddechrau'r ganrif ddiwethaf gan sefydlu lloches i blant amddifad a gweddwon digartref yn Assam. Dau arall oedd Thomas Bevan a David Jones a deithiodd o Geredigion yn 1818 i fod yn genhadon ym Madagascar gan sefydlu ysgol o'r enw Ysgol Thomas Bevan yn Tamatave. Cymro arall a ddaeth yn enwog dramor oedd Benjamin Piercy o Drefeglwys, un o'r peirianwyr rheilffyrdd cynnar a chynllunydd nifer o bontydd rheilffordd, ac a gynlluniodd reilffyrdd ar draws Cymru, Sardinia, Ffrainc ac India yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diolchwyd yn gynnes i Catrin am gyflwyno hanes diddorol y Cymry yma nad oedd eu hanes yn wybyddus i lawer ohonom. Yna mwynhawyd paned a chacen wedi eu paratoi gan Bethan Davies gyda chymorth Aileen Williams.

Estynnwyd croeso i Jane Aaron, Aberystwyth, i'r cyfarfod ar 9 Ionawr, a chafwyd ganddi hanes diddorol Sarah Jane Rees. Roedd Sarah Jane Rees, a anwyd yn Llangrannog yn 1839, yn fwy adnabyddus yn ôl ei henw barddol, Cranogwen, ac roedd yn arloeswr mewn nifer o feysydd. Roedd yn athrawes Gymraeg, yn fardd, yn olygydd, yn brif forwr ac yn ymgyrchydd dirwest. Derbyniodd ei haddysg gynnar yn ysgol y pentref gan hen ysgolfeistr o'r enw Hugh Davies, a ddysgodd Ladin a seryddiaeth iddi. Mynychodd ysgol yn Aberteifi a Cheinewydd yn ddiweddarach, ac astudiodd am gyfnod mewn ysgol fordwyo yn Llundain lle'r enillodd ei thystysgrif prif forwraig, cymhwyster oedd yn caniatáu iddi reoli llong yn unrhyw ran o'r byd. Am ddwy flynedd bu'n gweithio fel morwraig ar longau cargo rhwng Cymru a Ffrainc.

Yn ôl yng ngorllewin Cymru daeth yn brifathrawes pan oedd yn 21 oed, ac yn 1859 sefydlodd ei hysgol fordwyo ei hun yn Llangrannog lle’r addysgodd forwriaeth a chrefft môr i ddynion ifanc lleol. Yn 1865, daeth yn enwog drwy Gymru gan mai hi oedd y wraig gyntaf i ennill gwobr farddonol yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Aberystwyth y flwyddyn honno, gan ysgrifennu dan yr enw Cranogwen.

Yn dilyn ei llwyddiant cynyddodd ei phoblogrwydd, a byddai’n teithio ledled y wlad yn darlithio ar ran y Methodistiaid Calfinaidd. Bu hefyd ar deithiau o amgylch Unol Daleithiau America, gan annerch cymunedau o ymfudwyr Cymreig yn bennaf. Yn 1879 hi oedd y fenyw gyntaf i olygu cylchgrawn Cymraeg i fenywod, *Y Frythones*. Bu farw Sarah Jane yn 1916 yng Nghilfynydd, ac fe’i claddwyd ym mynwent Eglwys Sant Crannog, Llangrannog.

Yn 2021 comisiynwyd Sebastien Boyesen i greu cerflun o Cranogwen, a chafodd y cerflun ei ddadorchuddio mewn seremoni i goffáu ei bywyd yn Llangrannog ym Mehefin 2023. Diolchwyd yn gynnes i Jane am hanes diddorol Cranogwen, ac am ddatgelu’r ffaith iddi fod yn darlithio fwy nag unwaith yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, yn ystod yr 1860au, ffaith nad oeddem yn ymwybodol ohoni. Cafwyd paned ar y diwedd wedi ei baratoi gan Carys Briddon.

Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan, Tal-y-bont, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod ar 13 Chwefror. Bu’n sôn am y dylanwadau a fu arno pan oedd yn ifanc a’r rhai a fu’n ei annog i ddal ati i farddoni. Darllenodd nifer o gerddi o’i gyfrol gyntaf o farddoniaeth, *DNA*, a’r geiriau ynddynt yn creu darluniau hyfryd o’r testun. Daeth â rhai o’i drysorau i’w dangos inni, sef llythyrau a dderbyniodd i’w longyfarch ar ei gampweithiau eisteddfodol, a’r rheini yn llawysgrifen rhai o’i arwyr, megis Gerallt Lloyd Owen, W. J. Gruffydd a John Roderick Rees. Bu’n brynhawn dymunol iawn a diolchwyd yn gynnes iddo gan Meinir Fleming, cyn mwynhau paned wedi ei baratoi gan Non Griffiths gyda chymorth Mona Rowlands.

*Carys Briddon*

## Symud y Meini

Pan yw'r drylliedig yn cael ei gyfannu,
pan yw'r clwyfedig yn cael iachâd,
pan yw'r ofnus yn cael ymgeledd:
*y mae'r maen wedi ei dreiglo ymaith.*

Pan yw'r unig yn canfod cyfeillgarwch,
pan yw'r trallodus yn canfod cysur,
pan yw'r pryderus yn canfod tawelwch meddwl,
*y mae'r maen wedi ei dreiglo ymaith.*

Pan ddysgwn rannu'n hytrach na hawlio,
pan ddysgwn gofleidio'n hytrach na tharo,
pan ymunwn yn deulu o amgylch y bwrdd,
*y mae'r maen wedi ei dreiglo ymaith.*

Ynot ti, Grist Iesu,
y mae pob maen yn cael ei dreiglo ymaith:
y mae cariad yn torri trwy gasineb;
y mae gobaith yn torri trwy anobaith,
y mae bywyd yn torri drwy angau.
*Haleliwia! Crist a gyfodwyd!*



*Llun: Adobe Stock*

(Gweddi gan Gymuned Iona, *Amser i Dduw*,
gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **9 Mehefin** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com